



E-GYLCHLYTHYR Medi 2018



Diweddariad TYR

Croeso i 8fed rhifyn Cylchlythyr Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru. Efallai eich bod eisoes wedi sylwi ein bod wedi newid y ffordd yr ydym yn rhannu newyddion ar ddiwyddiadau a chyfleoedd ariannu. Mae'r rhain bellach yn cael eu rhannu trwy Twitter a bwletinâu untro i sicrhau bod pawb yn derbyn y wybodaeth mewn da bryd i ymateb.

Dros yr haf, mae'r tîm wedi cyfrannu at adroddiad diweddar blynyddol Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i Lywodraeth Cymru ac, unwaith y bydd hwn wedi'i gwblhau, byddwn yn sicrhau ein bod yn ei rannu trwy fletin.

Beth nesaf? Wel, mae cyfnod yr hydref hwn eto am fod yn un prysur:

- Byddwn yn gobeithio am eglurder ynglŷn â Brexit; rydym hefyd yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o sut mae prosiectau'n bwriadu rhannu arfer gorau a sut y gallwn sicrhau bod hyn yn llywio datblygiadau yn y dyfodol – os oes gennych unrhyw syniadau ar hyn, cysylltwch â ni!
- Byddwn yn gweld y cyhoeddiad o ddarparwyr contract Cymru'n Gweithio; bydd yn dda cael dechrau trafod sut y bydd y gyfres o ddarpariaeth sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd o fewn y rhanbarth
- Bydd y rhwydwaith cystadleurwydd rhanbarthol i fusnesau bach a chanolig yn cyfarfod am y trydydd tro ym mis Hydref gyda'r ffocws ar gymorth a chyllid i hybu arloesedd
- Bydd ein rhwydweithiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn dod at ei gilydd ar gyfer y diweddariadau diweddaraf ar ddatblygiadau rhanbarthol, gan gynnwys y Fargen Ddinesig a Thasglu'r Cymoedd.

Mae'n bwysicach nag erioed ein bod ni'n rhannu ein newyddion da a'n storïau am brosiectau llwyddiannus er mwyn llywio'r drafodaeth am gyllid yn y dyfodol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn parhau i anfon eich straeon atom er mwyn i ni allu hyrwyddo'r effaith mae eich prosiect yn ei chael ar lefel ranbarthol.

Yn y rhifyn hwn

Diweddariad TYR

Tudalen 1

Data perfformiad rhanbarthol

Tudalen 2

Cynllun Cyflogadwyedd

Tudalen 2

Arolwg Aeddfedrwydd Digidol

Tudalen 3

Diweddariad Brexit

Tudalen 4

Arian ychwanegol i gefnogi pobl ifanc

Tudalen 4

Diwrnod ym Ysbrydoli i Gyflawni

Tudalen 5

Tasglu'r Cymoedd

Tudalen 6

Diweddariad Blas Lleol

Tudalen 7

Ymgynghori ar gefnogaeth ffermio

Tudalen 8

Porth Sgiliau Busnes

Tudalen 8

Canolfannau crefftio newydd

Tudalen 9

Data Perfformiad Rhanbarthol

Fel yr addawyd, dyma'r ffigyrau pennawd diweddaraf ar gyfer perfformiad gweithrediadau sy'n cael eu hariannu gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd o fewn rhanbarth y de-ddwyrain. Mae'r data ar gael yn fwy manwl ar [wefan WEFO](#).

Cronfa	Dangosydd	Ffigyrau ar gyfer rhanbarth y de-ddwyrain
ERDF	Mentrau a gafodd eu cynorthwyo	1,911
	Mentrau a gafodd eu creu	351
	Swyddi a grëwyd	3,472
ESF	Cyfranogwyr a gafodd eu cynorthwyo	71,093
	Cyfranogwyr a gafodd eu cefnogi i gael cyflogaeth	6,131
	Cyfranogwyr a enillodd gymwysterau	30,255
	Cyfranogwyr mewn addysg / hyfforddiant	3,801

[...yn ôl i'r brig](#)

Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru – adroddiad cynnydd

Mae Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, wedi datgan cyhoeddiad yr adroddiad cynnydd cyntaf ar gyflwyno'r Cynllun Cyflogadwyedd. Cafodd y Cynllun Cyflogadwyedd traws-lywodraethol ei gyhoeddi ym mis Mawrth eleni, gan nodi'r weledigaeth ar gyfer creu Cymru sydd ag economi cyflogaeth lawn, uwch-dechnoleg a chyflog uchel.

Ers ei gyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau darparu ystod eang o gamau gweithredu i gyflawni'r ymrwymadau a'r weledigaeth sy'n cael eu nodi yn y cynllun, gan weithio'n agos gyda phartneriaid i weithredu a datblygu'r strategaeth ymhellach.

Ymysg amrywiaeth o brosiectau a mentrau gwahanol ar draws y llywodraeth, mae cynnydd rhagorol yn cael ei wneud tuag at ddatblygu dau wasanaeth cyflogadwyedd newydd, Cymru'n Gweithio a'r Porth Cyngor

Cyflogaeth, yn barod i'w lansio'r flwyddyn nesaf. Bydd y prosiectau hyn yn creu system fwy syml ac effeithlon o gymorth cyflogadwyedd, wedi'i theilwra i anghenion yr unigolyn ac wedi'i chysylltu'n well ag ystod o wasanaethau eraill, gan gynnwys trafndiaeth, iechyd a chymorth gofal plant, fel rhan o'r ymagwedd gynyddol gyfannol, draws-lywodraethol i gyflogadwyedd.

Mae'r adroddiad yn dangos cyflawniadau allweddol hyd yn hyn, yn amlygu gwaith parhaus, ac yn nodi datblygiadau a gynllunnir ar gyfer y dyfodol – a gellir dod o hyd iddo [yma](#).



[...yn ôl i'r brig](#)

Arolwg Aeddfedrwydd Digidol Cymru 2018



Welsh Economy
Research Unit
Yr Uned Ymchwil
i Economi Cymru

Mae Cymru, fel y rhan fwyaf o wledydd eraill, yn mynd trwy gyfnod o drawsnewid cyflym, gyda thechnolegau digidol yn chwarae rhan ganolog mewn busnes a'r gymdeithas. Mae tystiolaeth o Arolygon Aeddfedrwydd Digidol blaenorol yn dangos bod mwy a mwy o fusnesau'n defnyddio technolegau megis cyfrifiadura cwmwl, e-fasnach a fideo-gynadledda. Maent hefyd yn elwa o ddefnydd o'r fath, gyda 50% o fentrau bach a chanolig (BBaChau) yn defnyddio band eang cyflym iawn i gynyddu elw, a nifer tebyg (48%) i gynyddu gwerthiannau.

Mae Ysgol Fusnes Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil wrth helpu i ddeall sut mae busnesau yng Nghymru yn ymateb i'r cyfleoedd a ddarperir gan fand eang cyflym iawn. I'r perwyl hwn, gwnaethant lansio'r Arolwg Aeddfedrwydd Digidol blynyddol diweddaraf ar 10 Medi. Mae'r arolwg yn

darparu'r brif ffynhonnell ddata ar fusnesau Cymru a'u Haeddfedrwydd Digidol – gan adlewyrchu eu sgiliau TG a'u defnydd o dechnolegau digidol.

Bydd pob busnes sy'n cymryd rhan yn arolwg 2018 yn gymwys i dderbyn copi o'u Sgôr Aeddfedrwydd Digidol am ddim (bydd hon yn cael ei hanfon at bawb sy'n cymryd rhan yn gynnar yn 2019), gan ddangos sut maent yn cymharu ag eraill yng Nghymru. Drwy gymryd rhan, bydd busnesau'n gallu cefnogi'r ymchwil bwysig hon, llywio gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â band eang cyflym iawn, a chyfrannu tuag at ddatblygu Cymru fel cenedl ddigidol.

Gellir dod o hyd i'r arolwg [yma](#).

Gellir dod o hyd i fanylion arolwg aeddfedrwydd digidol blaenorol Ysgol Fusnes Caerdydd, yn ogystal ag astudiaethau achos ac adroddiadau sganio'r gorwel, ar ei [gwefan](#).

Mae rhagor o help ar gael gan [Gyflymu Cymru i Fusnesau](#) – gwasanaeth cymorth busnes am ddim sy'n helpu busnesau bach a chanolig cymwys i wneud y gorau o dechnoleg ar-lein. Cynigir dosbarthiadau meistr, cefnogaeth un-i-un ac adolygiad gwefan, a gallai cymorth arbed arian, cynyddu gwerthiannau ac elw, a gwella cynhyrchiant i fusnesau.



[...yn ôl i'r brig](#)

Diweddariad Brexit

Ar y 13 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hysbysiadau technegol yn ymwneud ag [ERDF](#) a [ESE](#) i roi cyngor pe bai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb a drafodwyd



(h.y. 'dim bargaen'). Am gopi o'r dogfennau, dilynwch y dolenni uchod.

Gellir sicrhau buddiolwyr a buddiolwyr posibl rhaglenni'r UE yng Nghymru, pe bai canlyniad 'dim bargaen' i drafodaethau gyda'r UE, bydd **gwarant Trysorlys y DU** yn gwarantu pob gwariant yn ystod oes prosiectau a oedd yn derbyn Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd cyn diwedd mis Rhagfyr 2020.

Bellach, bydd gwarant Trysorlys y DU hefyd yn cwmpasu Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd ac rydym ar ddeall y bydd hysbysiad technegol ar y rhaglenni hyn yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth y DU yn fuan.

[...yn ôl i'r brig](#)

Arian ychwanegol i gefnogi pobl ifanc

Ar 28 Awst, cyhoeddodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y bydd £17 miliwn ychwanegol o arian yr UE yn cael ei fuddsoddi i helpu dros 7,000 o bobl ifanc ar draws de-ddwyrain Cymru i wella eu rhagolygon cyflogaeth.



Bydd Ysbrydoli i Gyflawni, dan arweiniad cynghorau Blaenau Gwent a Chasnewydd, yn derbyn £15.9 miliwn ychwanegol o arian yr UE i weithio gydag ysgolion a cholegau i roi cymorth i bobl ifanc rhwng 11 ac 19 oed sydd mewn perygl o gael eu colli o addysg a hyfforddiant.



Bydd rhaglen Ysbrydoli i Weithio Cyngor

Casnewydd yn derbyn £1.46 miliwn pellach o arian yr UE i ddarparu mentora un-i-un a chymorth gyda sgiliau sylfaenol a phersonol a llythrennedd digidol, fel y gall pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed ennill cymwysterau, mynd i addysg bellach a sicrhau cyflogaeth.

Mae'r buddsoddiad newydd yn adeiladu ar yr £19 miliwn o arian yr UE a gafodd ei roi i'r cynlluniau'n flaenorol, sydd eisoes wedi cefnogi dros 4,000 o bobl ifanc. Ynghyd â'r arian ychwanegol, bydd y cynlluniau yn cefnogi 15,000 o unigolion pellach dros y pedair blynedd nesaf.

Meddai Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid:

"Mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi ein pobl ifanc i gael dyfodol mwy disglair a ffyniannus. Bydd arian ychwanegol yr UE yn helpu pobl ifanc i fynd i'r afael â rhwystrau i'w haddysg a rhoi'r cymorth wedi'i dargedu sydd ei angen arnynt i gael mynediad at gyflogaeth. Bydd yn adeiladu ar gyflawniadau llwyddiannus cronfeydd yr UE hyd yma, sydd eisoes wedi helpu bron i 40,000 o bobl ifanc ledled Cymru i wella eu siawns o lwyddiant cyflogaeth."

[...yn ôl i'r brig](#)

Diwrnod ym mywyd gweithiwr Ysbrydoli i Gyflawni

Mae'r bore yn dechrau yn y swyddfa, lle rwy'n paratoi ar gyfer y diwrnod i ddod.

Nesaf, yn yr ysgol, byddaf yn sefydlu fy swyddfa ar gyfer y diwrnod wrth baratoi i gwrdd â fy mhobl ifanc. Rwy'n cydweithio'n agos â hyfforddwr dysgu'r ysgol, sy'n fy nghefnogi i sicrhau fy mod yn cael gweld pob un o fy mhobl ifanc y diwrnod hwnnw, a gweithio o gwmpas amserlen pob unigolyn. Byddaf hefyd yn cyfathrebu â'r cynghorydd Gyrfa Cymru sydd wedi'i neilltuo i'r rhaglen Ysbrydoli i Gyflawni yn yr ysgol. Byddwn i gyd yn trafod achosion ac yn rhannu gwybodaeth, sydd hefyd yn fy helpu i gwblhau fy adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfarfod monitro NEET misol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ysgol ynglŷn â chynnydd y bobl ifanc.



Byddaf yn cyflwyno sesiynau un-i-un i gynifer o'r 20 o bobl ifanc ar fy llyfrau ag y gallaf eu cynnwys yn yr amser sydd wedi'i neilltuo i mi. Rydym yn cwrdd bob wythnos i drafod lle maen nhw a lle hoffent nhw fod, ac rydym yn gosod nodau personol iddynt gyflawni hyn, yn y tymor hir a'r tymor byr. Mae pob unigolyn yn wahanol, ac rwy'n seilio fy nghyflwyniad ar y ffurflen atgyfeirio oddi wrth yr ysgol a'r dangosyddion

sydd wedi cael eu nodi i mi weithio arnynt. Gallai sesiwn un-i-un amrywio o unrhyw beth o ddeg munud i un awr yn dibynnu ar yr hyn yr ydym yn ei wneud: cwblhau taflenni gwaith sy'n seiliedig ar broblem benodol, neu drafodaeth am eu hanghenion, cyfeirio, cwblhau'r asesiad seren a deilliannau meddal, a diweddarau cynllun gweithredu'r unigolyn ifanc. Ar ddiwedd pob sesiwn, caiff yr holl ddogfennau a gwblhawyd gennyf i a'r unigolyn ifanc eu darllen a'u llofnodi i gadarnhau camau, nodau a chysylltiadau yn y dyfodol, gan ddangos bod y sesiwn wedi digwydd

Mae llawer o'r bobl ifanc rydw i'n gweithio gyda nhw yn agored i niwed a gall cael perthynas â theulu unigolyn ifanc fod yn hollbwysig. Yn ddiweddarach mewn ymweliad cartref, byddaf yn trafod unrhyw bryderon y gallai fod ganddynt neu sydd gennyf i, ac, yn aml, yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad yr unigolyn ifanc a'i berthynas â'r gymuned a chartref y teulu. Rydw i'n gweithio'n agos gyda'r teulu i sicrhau bod cefnogaeth yn dechrau gartref yn ogystal ag yn yr ysgol.

Rwy'n treulio llawer o amser yn y gymuned leol, gan fod y gwaith arweiniol yn aml yn ymwneud â gwneud cysylltiadau yn fy nghymuned leol gyda gwasanaethau a darparwyr sydd ar gael i'n pobl ifanc. Ar ôl ymweliad cartref, byddaf yn cwrdd â gwasanaethau a darparwyr allanol, gan ddibynnu ar yr hyn y mae arnaf ei angen ar y diwrnod hwnnw. Ar yr adeg yna y caiff unrhyw bryderon neu gyngor ac arweiniad eu rhannu i sicrhau bod gwaith partneriaeth effeithiol yn cael ei wneud er budd ein pobl ifanc.

Tua diwedd y diwrnod gwaith, rwy'n neilltuo amser i gwblhau fy ngwaith papur, a fydd y rhan fwyaf o'r amser yn cynnwys paratoi llythyr cymhwyster, cwblhau gwybodaeth gyswllt, ac atgyfeiriadau rhyngasiantaethol i Gyrfa Cymru. Mae'n hanfodol cwblhau gwaith papur sydd heb ei glirio ar gyfer y diwrnod nesaf.

Tasglu'r Cymoedd

Adroddiad Cynnydd

Ym mis Gorffennaf, lansiodd Tasglu'r Cymoedd adroddiad cynnydd – blwyddyn yn dilyn y lansiad ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Tasglu wedi gweithio'n agos ar draws Llywodraeth Cymru a chyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol a busnesau lleol ac wedi cynnal rhagor o drafodaethau craff a heriol gyda phobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a gafodd ei wneud a gallwch ei ddarllen [yma](#) neu edrychwch ar [fideo](#) cryno

Hybiau Cymunedol

Cynhaliodd y tasglu ddigwyddiad yn gynnar ym mis Gorffennaf, a ddaeth â 120 o randdeiliaid hybiau cymunedol a sector cyhoeddus ynghyd i wneud y canlynol:

- Nodi'r rôl y gallai hybiau eu chwarae i gyfoethogi cymunedau'r Cymoedd a chwrrd â nodau'r tasglu
- Trafod y prif heriau y mae hybiau'n eu hwynebu i dyfu a ffynnu
- Rhannu cyfraniadau ystod o hybiau cymunedol tuag at adeiladu cymunedau lleol iach

Mae gweithdy traws-sector mwy manwl yn cael ei gynllunio i ymchwilio ymhellach sut y gall y Cymoedd fynd â'r syniad o hybiau cymunedol ymlaen.



Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, a chadeirydd y Tasglu Gweinidogol, Alun Davies

AC, yn lansio prosiectws ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd yng nghanol mis Hydref. Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn darparu a chynnal gwelliant a rheolaeth rhwydwaith hynod weladwy o ucheldiroedd, coetiroedd, gwarchodfeydd natur a pharciau gwledig, dyfrffyrdd, safleoedd treftadaeth ac atyniadau ar draws y Cymoedd, gan eu cysylltu â threfi a phentrefi.



Amlhau effaith yr A465

Mae Prifysgol De Cymru yn cyflwyno Papur Gwyn yn tynnu sylw at ddatblygiad economaidd rhanbarthol sydd â'r nod o amlhau effaith deuoli'r A465 ar ranbarth Blaenau'r Cymoedd. Bydd y prosiect yn dod ag ymchwil a thystiolaeth bresennol ynghyd i ddatblygu cynllun gweithredu clir i gefnogi Tasglu'r Cymoedd. Bydd y papur cryno yn llunio tri cham blaenoriaeth ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf, gan ddarparu fframwaith ar gyfer gwerthuso'r rhaglen datblygu seilwaith ar draws Blaenau'r Cymoedd yn y dyfodol.

Bydd y tasglu yn parhau â'u sgwrsiau gyda chymunedau lleol i helpu i gyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni, a byddant yn dechrau gweithio ar fersiwn ddiwygiedig yn nodi gweithgareddau newydd a fydd yn helpu i gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol y Cymoedd. Os oes gennych unrhyw safbwyntiau neu sylwadau, neu os ydych am gymryd rhan, gallwch anfon e-bost at EinCymoedd@llyw.cymru

Diweddariad Blas Lleol

Mae 'Blas Lleol' Cotyledon yn brosiect sydd wedi'i gynllunio i gefnogi cynhyrchwyr bwyd i gyrraedd marchnadoedd yn ne-ddwyrain Cymru trwy gadwyni cyflenwi byr.

Ymgysylltir â ffermydd a thyfwyr fel rhan o'r gwaith, gan eu helpu i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag arallgyfeirio'r ffordd y maent yn marchnata eu cynnyrch. Hefyd, darperir marchnadoedd gwledig a digwyddiadau o fewn cymunedau. Gyda'r cynhyrchwyr bwyd, mae gennym rwydwaith cryf o fasnachwyr crefftau rheolaidd yn ein marchnadoedd lleol a gyda'n gilydd yr haf hwn rydym wedi lansio Rhwydwaith Bwyd a Chreffft Blas Lleol.



Rydym wedi bod yn brysur! Dyma rai uchafbwyntiau diweddar:

Ar Flaen y Gad

Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb, sy'n archwilio potensial cyfleusterau torri a phrosesu ar fferm ar gael cyn hir i gynorthwyo ffermydd eraill sy'n cysylltu â ni am gymorth.

Marchnad Cas-gwent – y farchnad heb blastig gyntaf yng Nghymru!

Mae'r farchnad wedi bod yn hynod o lwyddiannus ac mae'n cael ei hymestyn i ddwywaith y mis tan fis Rhagfyr eleni. Mae'r canlyniadau yn gynnydd syfrdanol mewn ymwelwyr a gwerthiannau yn y siopau yn ystod y farchnad a chynnydd yn nifer y

siopau sy'n barod i agor ar ddydd Sul. Er mai Borough Market yn Llundain oedd o'n blaenau o ran bod y farchnad gyntaf heb blastig yn y DU, mae cyflwyno'r fenter hon i holl farchnadoedd Cotyledon yn golygu mai ni yw'r farchnad rwydweithiol cyntaf yn y DU.



Llwyddiant yn Sioe Frenhinol Cymru

Am yr ail flwyddyn yn olynol, cynyddodd Cotyledon werthiannau a phroffil ei rwydwaith o gelfyddydwyr annibynnol i fwydo'r nifer llawer a wnaeth ymweld ag adran cefn gwlad y sioe. Rhoddodd y gweithrediad gyfle i randdeiliaid Blas Lleol ymlacio a sgwrsio a gwnaethom gysylltiadau newydd.

Cynlluniau!

Rydym eisoes wedi cyflawni llawer o'n targedau ac rydym ar y ffordd i gyflawni ein targedau terfynol erbyn 2019. Byddwn yn anfon adroddiad gwerthuso i'w gylchredu.

Mae ein Sioe Deithiol Bwyd a Diod y Gaeaf yn lansio ym marchnad Tŷ Tredegar ar 17 Tachwedd, gyda ffocws ar losin, pwdinau a chreffft siwgr. Bydd yn symud i'n marchnadoedd yng Nghas-gwent, Parc Belle Vue, Casnewydd a Magwyr tan 22 Rhagfyr. Bydd pob un yn hyrwyddo thema wahanol ac yn cynnig cyfle blasu, arddangosiadau, gweithdai a'r pethau Nadoligaidd disgwylidig am ddim. Mae'r themâu yn cynnwys bwyd wedi pobi a chacennau, bwyd sawrus a chanapés, prif gyrsiau i gigwyr, figaniaid a llysieuwyr, diodydd ac aperitiffau, a ffyrdd gwych o ddefnyddio'r hyn sydd dros ben. Dewch draw i ymuno â ni – manylion pellach [yma](#).

Ymgynghoriad ar gymorth i ffermwyr ar ôl Brexit



Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio safbwyntiau ar eu cynigion i barhau i gefnogi rheolwyr tir ar ôl Brexit. Maent wedi amlinellu cynllun pontio dros nifer o flynyddoedd, a hoffent wybod am eich barn ar y canlynol:

- rhaglen newydd ar gyfer rheoli tir sy'n cynnwys cynllun cadernid economaidd a chynllun nwyddau cyhoeddus
- sut y dylid llunio'r cynlluniau penodol a fydd yn darparu'r cymorth

Gellir dod o hyd i'r ddogfen ymgynghori [yma](#). Cyflwynwch eich sylwadau erbyn **30 Hydref 2018**. Gallwch wneud hyn naill ai trwy lenwi [ffurflen ar-lein](#) neu drwy [lawrlwytho](#) a dychwelyd ffurflen ymateb i BrexitanTir.BrexitandOurLand@llyw.cymru neu drwy'r post i:

Brexit a'n Tir

Is-adran Diwygio Rheoli Tir

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

[...yn ôl i'r brig](#)

Datblygiadau Porth Sgiliau Busnes

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhan newydd o'r Porth Sgiliau Busnes sydd â'r pwrpas unigol o annog cyflogwyr i recriwtio mwy o bobl anabl.

Am y tro cyntaf, bydd y platfform hwn yn dod â manylion yr holl wasanaethau cymorth sydd ar gael i gyflogwyr ynghyd, yn ogystal â gwybodaeth ymarferol i gynorthwyo wrth recriwtio pobl ag anableddau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gynllun Mynediad at Waith yr Adran Waith a Phensiynau ac, ar

gyfer busnesau llai, y manylion cyswllt ar gyfer eu Cyngorydd Cyflogwr Bach, y mae naw ohonynt ar draws Cymru. Fel siop un stop ar gyfer cyflogwyr, mae'r platfform hwn yn anelu at hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth o anabledd ac yn nodi sut y gall cyflogwyr gymryd camau cadarnhaol i amrywiaethu eu gweithlu. Mae'r wybodaeth a'r cymorth sy'n cael eu cyflwyno yma yn annog ac yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o anabledd ac yn dangos i gyflogwyr sut y gallant ddatblygu eu harferion recriwtio a chyflogi i wella rhagolygon swydd a gyrfu i bobl anabl.

Cliciwch [yma](#) am ragor o wybodaeth.

[...yn ôl i'r brig](#)

Bydd canolfannau crefftau o fudd i gymunedau gwledig

Mae pum canolfan grefftau yn cael eu sefydlu ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o fenter newydd £61,000 gyda'r nod o gynhyrchu swyddi a chreu cyfleoedd lle y gall pobl gymdeithasu, rhannu eu sgiliau a gwella eu galluoedd.



Yn seiliedig mewn adeiladau yn Abercynffig, Pontycymer, Cwm Ogwr, Newton a Gogledd Corneli, bydd Cydweithfa Grefftau Pen-y-bont ar Ogwr yn agored i grefftwyr profiadol yn ogystal â dechreuwyr newydd, a bydd aelodau yn derbyn hyfforddiant mewn ymarfer busnes, marchnata digidol a sgiliau cysylltiedig eraill.

Trefnwyd y Gydweithfa Grefftau mewn partneriaeth rhwng tîm Reach Pen-y-bont ar Ogwr ac Eclipse Gift Wrapping ac mae wedi ei hariannu'n llawn drwy'r Cynllun Cymunedau Gwledig Ffyniannus.

Bydd y Gydweithfa yn sefydlu cyfleoedd i arddangos a gwerthu gwaith aelodau mewn ffeiriau crefftau ac arddangosfeydd mewn lleoliadau o bwys, marchnadoedd crefftau, llwybrau crefftau, siopau dros dro a rhagor.

Gobaith y fenter yw sefydlu rhwydwaith lleol o fusnesau crefft, a chafodd ei lansio yn yr Eglwys Gymunedol yn Heol Pandy, Abercynffig, ar ddydd Gwener 14 Medi am 2pm, gyda'r Prif Weinidog Carwyn Jones AC, Chris Elmore AS, y Cynghorydd Huw David (arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr), a'r Cynghorydd Charles Smith (Aelod y Cabinet dros Adfywio ac Addysg) ymhlith eraill oedd yn bresennol.

Meddai'r Cynghorydd Charles Smith, Aelod o'r



Cabinet dros Adfywriad ac Addysg, "Mae Gwaith Crefft wedi profi hwb enfawr mewn poblogrwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a does dim rhaid i chi ond edrych ar faint o "entrepreneuriaid hobi" sy'n gwerthu ar-lein y dyddiau yma i weld hyn.

"Gyda manteision ychwanegol fel mentora busnes ar gael, mae'r Gydweithfa Grefftau yn cynnig cyfle ffantastig i drigolion dawnus i sôn wrth bobl am eu gwaith, gwella eu sgiliau a threulio amser gyda phobl greadigol eraill o'r un feddwl.

"Mae'r diolch i gyllid Ewropeidd am wneud y fenter hon yn bosibl, ac rwyf yn ddiolchgar i'r grŵp gweithredu lleol am flaenoriaethu cyllid yr UE."



I gael gwybod rhagor, ewch i www.craft.bridgendreach.org.uk, neu chwiliwch am [Bridgend Craft Collective](#) ar Facebook a [@BridgendCraft](#) ar Twitter.

Mae'r prosiect wedi derbyn arian drwy Raglen Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

...yn ôl i'r brig